# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 2**

AWDURDOD CYLLID CYMRU

*Gweithdrefn a dilysrwydd*

**10 Gweithdrefn**

(1) Rhaid i ACC lunio rheolau i reoli ei weithdrefn ei hun (gan gynnwys ei gworwm) yn ogystal â gweithdrefn unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor.

(2) Rhaid i'r rheolau ddarparu nad oes cworwm mewn cyfarfod o ACC oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol o ACC.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 194(2)**

**I2** A. 10 mewn grym ar 18.10.2017 gan O.S. 2017/954, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 10.